Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Adroddiad Blynyddol
y Corff Llywodraethol
2020 - 2021

Rhagoriaeth yw nod Plasmawr.
Gwneir hyn drwy gynnal cymuned flaengar
sy'n seiliedig ar barch;
sy'n Gymraeg ei hiaith a'i diwylliant;
sy'n ddisgybledig ei hymarweddiad;
sy'n eangfrydig ei gorwelion;
sy'n meithrin sgiliau ei dysgwyr ac
sy'n rhoi gwerth cyfartal ar bob aelod ohoni.

Annwyl Riant/Warcheidwad

Ysgrifennaf atoch fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Plasmawr ar ddiwedd blwyddyn ryfeddol o heriol a phryderus i bawb. Mae'r pandemig dros y 18 mis diwethaf wedi creithio ein teuluoedd a'n cymdeithasau ac wedi gorfodi pob un ohonom i ailfeddwl am ein blaenoriaethau mewn bywyd. Mae cwmni a chefnogaeth teulu a'n hiechyd yn agweddau ar fywyd na chymerwn yn ganiataol byth eto.

Mae'r Adroddiad Blynyddol eleni yn un fwy cryno nag arfer gan fod gweithgareddau'r ysgol wedi cael eu cyfyngu gan weithdrefnau COVID, a bu cyfnodau hir o'r flwyddyn pan oedd safle'r ysgol ar gau i ddisgyblion a staff a phawb yn gweithio gartref.

Mae'r ysgol wedi gorfod ymateb i heriau digynsail drwy'r flwyddyn ac wedi gorfod addasu i amgylchiadau oedd yn newid yn wythnosol os nad yn ddyddiol. Credaf fod staff yr ysgol wedi cyflawni gwaith rhagorol drwy'r flwyddyn gan ymateb yn gyflym i sefyllfa gymhleth, wrth gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth addysgol, gofalu am les emosiynol eu disgyblion, a sicrhau amgylchedd diogel a chynhaliol ar eu cyfer.

Fel llywodraethwyr, gallwn dystio i'r gwaith diflino sydd wedi digwydd drwy rwydweithiau niferus a hefyd ar safle'r ysgol. Hoffwn gydnabod arweiniad cadarn y Pennaeth drwy gydol y flwyddyn. Rwy'n ffyddiog y bydd ef, ei Dîm Arwain a holl staff yr ysgol yn gweithredu gyda'r un ymroddiad yn ystod y flwyddyn sy'n dod, i feithrin, cynnal ac ehangu gorwelion y disgyblion.

Yn olaf, fe hoffwn gofnodi marwolaeth Ms Teleri Bevan a fu'n ffrind agos i'r ysgol dros lawer o flynyddoedd. Bu'n Llywodraethwr ac yn Gadeirydd y Corff Llywodraethol am sawl blwyddyn. Roedd Teleri yn arloeswr ym myd darlledu; hi oedd golygydd cyntaf Radio Wales ym 1978 a threuliodd 40 mlynedd yn gweithio i'r BBC yng Nghymru. Ar ôl iddi ymddeol ym 1991 fel pennaeth rhaglenni BBC Wales fe aeth ati i ysgrifennu sawl llyfr hanesyddol a hunangofiant.

Bu farw Teleri yn 89 mlwydd oed yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd Teleri yn wyneb cyfarwydd yn yr ysgol; roedd hi wrth ei bodd yn mwynhau gweld a chlywed doniau disgyblion Plasmawr a byddai'n dod i bob perfformiad cerddorol a drama. Diolchwn iddi am ei chyfraniad gwerthfawr i lwyddiant yr ysgol.

Dymunaf yn dda i'r ysgol yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Mair Parry-Jones
Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Rhagarweiniad gan John Hayes, Pennaeth.

Yn gyntaf hoffwn ddiolch i Mair Parry-Jones, Cadeirydd y Corff Llywodraethol am ei chefnogaeth i holl waith yr Ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a diolch iddi am ei harweinyddiaeth fedrus o'r Corff Llywodraethol dan amodau heriol.

Caiff y flwyddyn 2020-21 ei chofio fel blwyddyn COVID-19 gyda'r ail a'r drydedd don yn ein taro yn ystod tymor yr hydref a thymor yr haf. Gorfodwyd pawb i weithio gartref trwy gydol tymor y gwanwyn a llwyddwyd i gynnal profiadau dysgu'r disgyblion drwy gyfuniad o wersi rhithiol 'byw' a gwaith wedi ei osod ar MS Teams.

Pan adroddwyd am y feirws am y tro cyntaf yn Tsieina ychydig cyn Nadolig 2019, doedd neb yn meddwl y byddai'r feirws yn cael effaith bell-gyrhaeddol, fyd eang; yn bandemig fyddai'n lladd miliynau o bobl ar draws y byd ac yn gorfodi pawb i ail-feddwl am holl agweddau eu bywyd gwaith a phersonol.

Defnyddiwyd y term 'digyffelyb' ar sawl achlysur i ddisgrifio sefyllfa COVID-19 ac mae'n gwbl addas ar gyfer ei effaith ar ysgolion. Mae'r sefyllfa wedi creu heriau di-ri i gymuned yr ysgol, ac mae pawb wedi gorfod addasu'n gyflym i ffordd wahanol iawn o weithio.

Iechyd a llesiant pob aelod o gymuned yr ysgol oedd yn flaenoriaeth i'n cynllunio a'n darpariaeth drwy gydol y flwyddyn, a mynegwyd hynny wrth rieni yn gyson mewn llythyron oedd yn llinyn cyswllt rhwng yr ysgol a'u theuluoedd. Mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol wedi bod yn fendith yn ystod y cyfnod hwn, gan ganiatáu i staff yr ysgol fedru cyfathrebu'n gyson â'r dygwyr a'u rhieni.

Bu'r ysgol yn gweithredu o hirbell am gyfnodau hir yn ystod y flwyddyn, ac mae'r dechnoleg ddigidol wedi caniatáu i ni gynnal cyfarfodydd strategol ymysg cydweithwyr, cynnal cyfweliadau ar gyfer swyddi at fis Medi, yn ogystal â chyfarfodydd Llywodraethwyr.

Rydym wedi gorfod addasu'n gyflym i'r heriau a grëwyd gan y pandemig ac mae ambell agwedd o fywyd ysgol y byddwn yn parhau â nhw yn y dyfodol. Mae ymateb cadarnhaol rhieni ac athrawon i nosweithiau rhieni rhithiol yn golygu mai dyna sut fyddwn yn gweithredu ein nosweithiau rhieni yn y dyfodol. Mae

ein system cerdded un-ffordd o amgylch y safle yma i aros, gan fod hyn yn lleihau tagfeydd ar hyd y coridorau a'r grisiau ac yn creu amgylchedd mwy diogel i bawb. Byddwn hefyd yn parhau i weithredu system dau ginio, gan fod hynny'n creu amgylchedd mwy gwaraidd a diogel i'n disgyblion yn ystod amser cinio.

Mae'r pandemig wedi golygu newid yn y ffordd yr aseswyd disgyblion Blwyddyn 11, 12 a 13 ar gyfer eu cymhwysterau am yr ail flwyddyn yn olynol. Eleni, fe safwyd asesiadau ffurfiol ar gyfer cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Galwedigaethol ar gyfer cymwysterau haf 2021. Hoffwn gydnabod gwaith anhygoel y staff wrth baratoi'r asesiadau, eu marcio ac yna eu safoni, a diolch i'r myfyrwyr am y modd yr aethant ati i ymgymryd â'r asesiadau mewn ffordd mor gydwybodol ac aeddfed. Mae cyfnod y pandemig wedi bod yn her fawr i bawb, ond yn enwedig i'n myfyrwyr blynyddoedd arholiadau, sydd wedi gorfod dygymod â chymaint o ansicrwydd, ansefydlogrwydd a phryder. Dymunaf bob llwyddiant iddynt.

Mae cynnwys gweddill yr adroddiad yn gofnod mwy cynnil nag arfer o uchafbwyntiau a llwyddiannau'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf ac rwy'n hynod falch bod yr ysgol wedi medru darparu cymaint o gyfleoedd i'n disgyblion fedru cyfranogi, ffynnu a mwynhau llu o brofiadau amrywiol er gwaethaf y cyfyngiadau COVID-19. Mae'r staff a'r disgyblion wedi dangos dygnwch, dyfalbarhad a llawer iawn o greadigrwydd wrth fedru parhau i gynnal gweithgareddau allgyrsiol er y rhwystrau yn sgil y feirws.

Profiadau Dysgu

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn ateb gofynion statudol ac yn bodloni diddordebau a dyheadau mwyafrif y disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 3, ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd ac ehangu eu profiadau dysgu trwy astudio ail iaith fodern ym Mlwyddyn 9. Yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5 mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol sydd yn diwallu gofynion y mwyafrif o ddisgyblion a chyflogwyr lleol, er enghraifft cwrs gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd dysgu amgen gwerthfawr i ddisgyblion sydd mewn peryg o ddieithrio.

Mae'r ysgol yn cynnig arlwy helaeth ac ysgogol o weithgareddau i'r disgyblion y tu allan i oriau ysgol. Cydweithia'r ysgol yn gynhyrchiol ag ystod o fusnesau lleol er mwyn sicrhau addysg gysylltiedig â gwaith buddiol i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i ofynion y fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol cenedlaethol. Drwy ystod o ymyriadau addas, cefnoga'r ysgol y disgyblion sydd â medrau gwan yn llwyddiannus. Mae strategaethau pontio'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn arwain at drosglwyddiad cwricwlaidd esmwyth. Er gwaethaf y cyfyngiadau COVID roedd hi'n braf medru croesawu i'r ysgol ddisgyblion ein hysgolion cynradd yn eu tro ar ymweliad pontio yn nhymor yr haf.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm llawn trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnig ystod o gyfleoedd dychmygus i sicrhau bod medrau ieithyddol yn y Gymraeg, yn ogystal ag ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant a hanes ein gwlad, yn ffynnu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth yn gref ac yn cael ei hatgyfnerthu drwy ein cysylltiadau gwerthfawr gyda Lesotho a Siapan, a thrwy waith y grŵp 'Glôb' er bod hyn wedi ei gyfyngu eleni am resymau amlwg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer materion yn ymwneud â chynaladwyedd yn datblygu'n dda gyda chymorth egnïol y grŵp Eco-Amgylch. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r grwp Amgylch wedi bod yn gyfrifol am leihau ar werthu poteli plastig yn yr ysgol gan gynnwys yn y ffreutur a siop y 6ed, ac wedi cyfrannu at brosiectau cyffrous gan gynnwys cynllunio stad o dai gyda Wates Group a Pda Architects. Bu'r grwp yn rhan o brosiect lleihau trydan yr ysgol, a buont yn cyflwyno yng nghynhadledd Dinasoedd Cyfeillgar (Mawrth 2020). Ymgyrchodd Amgylch yn llwyddiannus i ennill grant am sied feiciau newydd i'r 6ed, ac arweiniodd y grŵp ymgyrchu 'diffodd am 10 diwrnod' llwyddiannus yr ysgol, a arweiniodd at leihad o 10% yn ein defnydd o drydan. Cafodd yr aelodau hefyd cyfle i gyfrannu at gynllun Teithio Llesol ar y cyd â Chyngor Caerdydd.
Mae'n fraint cael adrodd bod Plasmawr yn ysgol arweiniol i'r Consortiwm yn y meysydd canlynol; Iechyd a Llesiant; TGAU Ffrangeg a Chyfrifiadureg.

Cyngor yr Ysgol

'Roedd Cyngor yr Ysgol eleni'n cynnwys amrywiaeth o ddisgyblion yn cynrychioli pob agwedd o fywyd yr ysgol, ac maent oll wedi cyfrannu'n dda at drafodaethau ynglŷn â llu o faterion pwysig.
Cynrychiolwyd y Cyngor ar Fwrdd y Llywodraethwyr gan yr Uwch Swyddogion, Daniel Howes a Greta Evans (Blwyddyn 13).

Y Chweched Dosbarth

Mae cyfraniad myfyrwyr Chweched Dosbarth at bob agwedd o waith yr Ysgol yn amhrisiadwy ac yn cynnig dimensiwn gwerthfawr ychwanegol i fywyd Ysgol e.e. drwy gefnogi diwrnodau 'Cymreictod' ym Mhlasmawr. Mae'r Chweched Dosbarth eleni wedi bod mor weithgar â phosib dan yr amgylchiadau ac wedi arwain nifer o gynlluniau o fewn yr Ysgol. Mae tystiolaeth o flaengaredd y Chweched i'w weld yn gyson drwy'r Ysgol, gan gynnwys hyfforddi a mentora disgyblion iau gyda'u gwaith ysgol yn ogystal â materion mwy cymdeithasol a phersonol. Mae'r Chweched yn weithgar yn flynyddol, gan gefnogi amrywiaeth o elusennau drwy gynnal gweithgareddau allgyrsiol amrywiol.

Llongyfarchiadau i Awen Summers, Katie Mutyambizi, Hari Samuel, Jac Morgan a Lila Cooksley ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth 'Debating Matters' yn nhymor yr haf, a llongyfarchiadau i'r tri thîm o ddisgyblion blynyddoedd 12 a 13 a fu'n cystadlu yn Nhalwrn yr Ifanc, Urdd Gobaith Cymru.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'n prif swyddogion eleni Daniel Howes a Greta Evans. Maent wedi bod yn llysgenhadon gwych i'r Ysgol ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn ac wedi cynrychioli disgyblion Plasmawr ag urddas ar y Corff Llywodraethol llawn.

Llongyfarchiadau mawr i Manon Clarke a Greta Evans sydd wedi bod yn aelodau gweithgar o Senedd Ieuenctid Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Llongyfarchiadau i Mirain Thomas a enillodd ysgoloriaeth Evan Morgan i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth ac i Beca Evans a enillodd ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i astudio ym Mhrifysgol Bangor.

Datblygiad Arweinyddiaeth Disgyblion

Mae ein cynlluniau mentora cyfoedion ac arweinyddiaeth disgyblion wedi eu cyfyngu eleni. Mewn blwyddyn arferol mae pob un o'r cynlluniau mentora ac arweinyddiaeth yr ydym yn eu cynnig wedi ymrwymo i roi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau a rhinweddau arweinyddiaeth eu hunain. Mae'r mentoriaid cyfoedion yn derbyn hyfforddiant gan Karen Evans (cwnselydd yr ysgol) cyn iddynt ddechrau ar eu gwaith. Mae ein Mentoriaid Cyfoedion Academaidd yn cynorthwyo'r clwb gwaith-cartref a'r sesiwn T.P. (MAPs). Mae'r Mentoriaid Gwrth-Fwlio (CCCs) ar gael amser egwyl ac amser cinio i wrando ar bryderon eraill ac mae gennym dîm o wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo gyda'n cynlluniau darllen (DIPs).

Mae 'Merched Mentrus' a 'Bechgyn Bonheddig' yn grwpiau cyfoedion sydd â'r nod o wella hunan-ddelwedd disgyblion a datblygu perthnasoedd iach tuag at ein gilydd a tuag at fywyd yr ysgol. Mae grŵp 'Newid Ffem' wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o hawliau cyfartal i ferched.

Mae Digon yn cefnogi disgyblion LHDTC+ yr ysgol. Un o uchafbwyntiau calendr y grŵp yw 'Wythnos yr Enfys' ym mis Chwefror. Eleni, cafodd Mr Marc Lewis (Cydlynydd

Cydraddoldeb) yr hawlfraint i gyfieithu a pherfformio fideo o "It's Time to Dance" o sioe gerdd newydd "The Prom" ar gyfer dathliadau wythnos yr Enfys. Cafodd y gân gryn sylw ar trydar, a llwyddwyd i gasglu dros £500 i elusen, 'Mind Caerdydd' ar gyfer eu gwaith yn cynnig cymorth i bobl LHDTC+ lleol sydd ceisio ymdopi ag anawsterau iechyd meddwl. Yn ogystal â hyn, cafwyd Wythnos yr Enfys rithiol lwyddiannus iawn gyda nifer fawr o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i ddathlu mis hanes LHDTC+ ac yn benodol i ddathlu arwyr o fewn y gymuned.

Cyfrannodd aelodau Digon at adroddiad thematig Estyn, 'Dathlu amrywioldeb a hyrwyddo cynhwysiant mewn ysgolion' a gyhoeddwyd eleni, yn ogystal â pharhau i siapio Addysg Cydberthnasoedd a Rhywioldeb, gan gyfrannu at gynhadledd Cymru Gyfan Prifysgol Caerdydd ar ddechrau'r gwaith o sefydlu ACRh cynhwysol o fewn ysgolion Cymru.

Bu aelodau Digon, Balch a Newid Ffem yn cynnal gweithdai gyda phlant Blwyddyn 6 yn ystod eu diwrnodau pontio. Bwriad y sesiynau oedd meddwl am yr iaith mae pawb yn ei defnyddio gyda'i gilydd i sicrhau bod pawb yn barod i ddechrau'r flwyddyn newydd mewn cymuned sy'n parchu eraill waeth be fo'n gwahaniaethau; cymuned sy'n sicrhau fod pob un yn teimlo eu bod yn perthyn iddi.
Diolch i Katie Mutyambizi (Bl 12) sydd wedi arwain ein grwp 'Balch', sy'n dathlu ethnigrwydd ac sydd wedi codi ymwybyddiaeth ein cymuned ysgol o ieithwedd hiliol annerbyniol. Cynhaliodd Katie wasanaeth ar ran Balch yn ysgol Treganna yn nhymor yr haf ar y thema hiliaeth a hanes geiriau hiliol.

Llongyfarchiadau mawr i Mahum Umer (Blwyddyn 10) a fu'n rhan o brosiect 'Y Pump' i ysgrifennu nofel ar y cyd ag awduron ifanc. Dymuniadau gorau iddi ar gyfer y dyfodol fel awdur ifanc talentog.

Gweithgareddau Allgyrsiol

Gwneir ymdrech anhygoel bob blwyddyn i gynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, ond eleni oherwydd y cyfyngiadau COVID bu ardrawiad amlwg i'n harlwy allgyrsiol. Er hynny, mae sawl adran wedi dangos creadigrwydd anhygoel gan barhau i fedru cynnig profiadau allgyrsiol yn rhithiol ac yn ddigidol. Rwyf yn ddyledus i'r aelodau staff hynny sy'n fodlon cynnig y gweithgareddau hyn ac rwyf yn falch iawn o'r ymateb aruthrol gan ddisgyblion i'r gweithgareddau. Pan fo disgyblion y gorffennol yn myfyrio ar eu hamser yn yr ysgol, yn aml iawn, y profiadau allgyrsiol sy'n cael eu dwyn i gof.

Cynllun Dug Caeredin:
Rwy'n falch iawn fod yna gynllun Dug Caeredin llwyddiannus iawn wedi sefydlu yn yr ysgol ers llawer o flynyddoedd ac er y cyfyngiadau amlwg eleni, llwyddwyd cyflawni alldeithiau ar gyfer y wobr aur ac efydd. Rwy'n hynod ddyledus i Mr Aled Morgan sydd yn cydlynu'r gweithgareddau, gan gynnwys yr alldeithiau a'r criw o staff sy'n gwirfoddoli i gynorthwyo â'r alldeithiau hynny.
Cyflawnodd 27 myfyriwr Bl 13 yr alldaith gwobr aur.
Cyflawnodd 91 disgybl Blwyddyn 11 yr alldaith gwobr efydd.

Peirianneg a gweithgareddau STEM:
Trefnwyd cyfres o weithgareddau STEM eto eleni er mwyn codi ymwybyddiaeth disgyblion, yn enwedig merched, o gyfleoedd cyflogaeth mewn meysydd Mathemateg, Gwyddonol a Pheirianyddol. Cyflawnodd criw o ddisgyblion project EESW Stem Cymru (Engineering Education Scheme Wales) yn llwyddiannus.

Canwr Ifanc a Cherddor Ifanc Plasmawr:
Mae'r adran Gerdd wedi llwyddo mewn modd anhygoel o greadigol i gynnal eu holl weithgareddau allgyrsiol arferol yn rhithiol eleni sydd yn deyrnged i angerdd, brwdfrydedd a sgiliau Mrs Angharad Evans a Mr Rhydian Lake. Ymhlith digwyddiadau cofiadwy'r flwyddyn roedd noson o adloniant cerddorol, cystadlaethau Canwr Ifanc a Cherddor Ifanc y flwyddyn a chyngerdd Nadolig bendigedig. Trefnwyd yn ogystal, gyngerdd haf rhithiol gyda chôr pontio (disgyblion Bl 6) yn uchafbwynt teilwng i'r cyngerdd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth canwr ifanc Plasmawr yn rhithiol ar nos Fercher, 22ain o Hydref. Lefi Jo Hughes enillodd cystadleuaeth canwr iau'r ysgol, ac Iestyn Jones enillodd y gystadleuaeth hŷn. Cafodd y beirniaid, Robat Arwyn wefr wrth feirniadu ac fe'u plesiwyd yn fawr gan safon aruchel y cystadlu. Llongyfarchiadau i bawb arall a fu'n cystadlu: Gruff Charles, Ela Mai Williams, Alaw Charles ac Ana Wigley yn yr adran iau, a Celyn Stewart, Elan Davies a Martha Davies yn yr adran hŷn. Diolch arbennig i, enillydd llynedd, Efan Williams a berfformiodd yn ystod y noson ac i Mr Rhydian Lake am gyfeilio i'r cantorion.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Cerddor Ifanc Plasmawr ym mis Chwefror. Roedd hi'n gystadleuaeth arbennig o safonol yn ôl y beirniad, Gwen MacDonald. Y cyfeilydd oedd Mr Rhydian Lake. Noddwyd y gystadleuaeth unwaith eto gan Mrs Ruth Lewis, a diolchwn iddi am ei haelioni a'i chefnogaeth barhaus i achlysur arbennig iawn. Alys Webb oedd enillydd cystadleuaeth y cerddor iau, ac enillwyd y gystadleuaeth hŷn gan Manon Neale.

Llongyfarchiadau mawr i bawb arall a fu'n rhan o'r cystadlu:
Yr adran iau: Alaw, Eluned, Gruff Charles a Caled.
Yr adran hŷn: Angharad, Dewi Thistlewood, Iestyn Jones, Manon Roberts, Erin a Beca Evans.

Eisteddfod yr Urdd: Trefnwyd Eisteddfod T rhithiol gan yr Urdd eto eleni a chafodd yr ysgol gryn dipyn o lwyddiant am yr ail flwyddyn yn olynol:
Ensemble lleisiol staff – 1af.
Celyn a Martha: 2ail: Deuawd neu ensemble o sioe gerdd.
Morus Jones: 3ydd: Dawns werin unigol i fechgyn.
Côr bechgyn hŷn: 1af (am y 3edd flwyddyn yn olynol).
Parti unsain neu ddeusain Bl 7 – 9: 1af.
Merched PlasTaf: 1af.
Iestyn Jones: 1af: Sianti forwrol Gymreig.
Iestyn Jones: 1af: Creu podlediad neu raglen radio.
Garan Thomas: 2ail: Creu podlediad neu raglen radio.
Efan Williams: Cyflwyno alaw werin.
Erin Jardine: 1af: Unawd offerynnol Bl 7 – 9.

Chwaraeon: Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cynrychioli'r ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, naill ai fel unigolion neu fel aelod o dîm. Mae'r adran yn ymdrechu i gynnig cymaint o gyfleoedd â phosib i ddisgyblion gyfranogi o fewn yr adran ac yn allgyrsiol, ond mae wedi bod yn anodd eleni oherwydd cyfyngiadau COVID. Diolch i'r holl aelodau staff sydd wedi cynnal gweithgareddau allgyrsiol chwaraeon ac wedi hyfforddi unigolion a thimau yn ystod y flwyddyn.

Pêl droed: Mae timau pêl droed yr Ysgol yn mynd o nerth i nerth ac mae sawl disgybl yn chwarae i safon uchel. Diolch i Mr Iwan Rowlands am ei angerdd a'i frwdfrydedd ac am gynnal hyfforddiant pob prynhawn i wahanol flynyddoedd.
Cymru dan 16 oed: Daniel Watts
Chwarae i dimau bechgyn y sir:

Dan 12 oed: Gruff Evans, Jac Sykes, Gruff Beddis Davies wedi ei ddewis i'r sgwad 2021-22.
Dan 13 oed: Rhodri Amos, Rhys Jenkins, Jack Block.
Dan 14 oed: Jos Jones, Dafydd Ball, Fin Richards wedi ei ddewis i'r sgwad 2021-22.
Dan 15 oed: Kyron Pithers, Andrew Dyban Sully.
Dan 18 oed: Harry Watts.

Chwarae i dimau merched y sir:
Dan 13 oed: Emilia Ashun.
Dan 14 oed: Arwen Williams (hefyd wedi chwarae i'r tim dan 15 ac yn rhan o sgwad datblygu De Cymru).
Dan 15 oed: Nia Fajeysian, Elen Edwards.

Rygbi:
Carfan Rygbi Ysgolion Caerdydd o dan 15: Bleddyn Harris, Ryan Watts, Cai Phipps, Osian Lewis, Andrew Dyban Sully, Sion Davies, Osian Morgan, Sion Hill, Tom Patmore, Harrison Cooksey, Jonathon Pearce a Fin Barrett.

Criced: Yn cynrychioli Ysgolion Caerdydd a'r Fro:

Cai Phipps, Harri Pollit

Hwylio: Mae Merle Nieuwland wedi cael ei dewis i ymarfer gyda sgwad hwylio ieuenctid Prydain yn ddiweddar sy'n anhygoel. Bu'n cynrychioli Prydain ar lyn Garda, yr Eidal yn ddiweddar.

Neidio ceffylau: Llongyfarchiadau mawr i Esme Morgan am gystadlu ym mhencampwriaethau neidio ceffylau ysgolion Prydain ym mis Ebrill.

Athletau:
Cystadleuaeth athletau Ysgolion Cymru:
Sophie Knoyle, 1af 1500m.
Max Davies, 4ydd 300m.
Lili Rees-Thomas, 2ail 300m.

Rhedeg traws-gwlad: Mae Elis Finlayson (Bl 10) yn parhau i fynd o nerth i nerth yn y maes hwn ac yn bencampwr y Sir eto eleni.

Dawns: Bu tîm dawnsio'r ysgol dan arweiniad Ms Elin Owen yn cystadlu ynn nghwpan dawns y byd yn Telford ym mis Awst. Fe enillodd y tîm ddwy fedal efydd, sydd yn gamp anhygoel!!

Beicio mynydd: Mae Elin Berry (Bl 10) yn cystadlu ar lefel uchel ac yn cael ei noddi'n llawn yn y gamp. Dymuniadau gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

Gymnasteg: Mae Ruby Evans (Bl 9) yn rhan o dîm datblygiadol Prydain ar gyfer gymnasteg. Mae Samara Haines, Lili Bean, Nel Lewis yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Prydain ar gyfer 'Team Gym'.

Gwesteion ac ymwelwyr:
Bu'n flwyddyn dawel o ran gwesteion ac ymwelwyr i'r ysgol. Cynhaliwyd gwasanaeth rhithiol i gyflwyno Gwaith Senedd Ieuenctid Cymru ym mis Gorffennaf, a chafwyd cyflwyniadau gan Megan Williams sydd yn swyddog addysg i'r Cynulliad a'r Aelod Senedd, Rhys Owen Thomas. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd croesawu Theo Cabango â'u rieni yn ôl i'r ysgol i weld murlun a gafodd ei baentio ar un o furiau'r ysgol i gofnodi llwyddiant y ddau frawd, Ben a Theo. Mae'r ddau yn gyn-ddisgyblion; mae Ben wedi cyrraedd yr uchelfannau ym mhêl droed drwy gael ei gynnwys yng ngharfan tîm pêl droed Cymru ar gyfer pencampwriaethau'r Euros a Theo sydd yn academi'r Gleision ac yn cynrychioli Cymru dan 20 oed mewn rygbi. Fe gomisiynwyd rhaglen ddogfen am y ddau frawd gan S4C ac roedd yr ymweliad â'r ysgol yn rhan o'r rhaglen hwnnw, 'Y Brodyr Cabango'.

Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Staff Plasmawr (CRASP)

Mae'r Ysgol yn ddyledus i'r gymdeithas rhieni ac athrawon am drefnu gweithgareddau codi arian yn ystod y flwyddyn. Mae pob ceiniog o'r ymgyrch codi arian yn mynd tuag at brynu adnoddau fel cyfrifiaduron newydd a rhedeg bysiau-mini'r ysgol, pethau mae pob disgybl yn elwa ohonynt. Erbyn hyn mae CRASP wedi'i chofrestru fel elusen, sy'n caniatau mynediad i amrywiaeth o grantiau i'r ysgol yn ogystal â medru hawlio Gift Aid ble mae hynny'n bosib. Mae nifer o gynlluniau ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf; os hoffech chi wybod mwy, cysylltwch â ni.

Gwaith elusennol

Mae ymateb ein disgyblion i waith elusennol yn rhyfeddol; bu'r disgyblion wrthi eto eleni'n casglu arian at elusennau mewn llu o wahanol ffyrdd. Mae'r disgyblion sy'n aelodau o'r pwyllgor elusennol wedi sicrhau bod casgliadau cyson yn digwydd yn ystod y flwyddyn i gefnogi elusennau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Rhaid canmol haelioni ein teuluoedd sydd wedi cyfrannu at gyfanswm teilwng iawn o'r ysgol eto eleni.

Yr elusennau sydd wedi elwa o haelioni aelodau o gymuned Plasmawr eleni yw:

Tŷ Hafan, Wythnos yr Enfys (Mind Cymru), Ysbyty Felindre, Plant Mewn Angen, Prostate Cymru (Connor Dunne Bl 12).

Gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol:

Mae Cynllun Gwella'r Ysgol ar gyfer 2021-22 yn canolbwyntio ar ymateb yr ysgol i'r pandemig COVID a'r diwygiad addysgiadol yng Nghymru. Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd wedi eu mireinio drwy wrando ar lais holl randdeiliaid yr ysgol:

Ein gweledigaeth yw creu amgylchedd cynhwysol, sy'n sicrhau bod pob unigolyn yn bwysig. Mae'r pwyslais ar lesiant a pharatoi ar gyfer dysgu er mwyn i ddysgwyr datblygu'r gwerthoedd, cymwyseddau a'r sgiliau i ffynnu mewn byd sy'n newid yn barhaus.
Ein gobaith yw ysbrydoli pawb i fod y gorau y gallant fod, gan ddatblygu sgiliau dyfalbarhad a gwydnwch.
Byddwn yn gwerthuso'n darpariaeth bresennol, yn gwneud penderfyniadau gwybodus cyn newid ein harferion wrth i'r cwricwlwm newid. Byddwn yn archwilio ac yn gweithredu arfer da o bob cwr o Gymru, gan lunio cwricwlwm ysgol unigryw i ddiwallu anghenion ein plant.
Ein nod yw darparu cyfleoedd addysgeg cyfoethog a heriol i wella gallu ein plant i oresgyn problemau a heriau. Ein gobaith yw gwella dysgu myfyriol a datblygiad personol ein disgyblion a'n staff a gwella ein partneriaethau cymunedol. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i bawb dderbyn y cyfleoedd gorau mewn amgylchedd dysgu diogel, hapus, gofalgar a chyffrous.
Ein gweledigaeth yw sicrhau llwyddiant drwy gynnig profiadau dysgu cyffrous i'r dysgwyr a datblygiad proffesiynol o safon uchel i'r staff fydd yn arwain at gyfleoedd addysgu a dysgu rhagorol.

Nodau'r ysgol yw:

Llunio cwricwlwm unigryw i ddiwallu anghenion ein disgyblion.
Sicrhau bod lles pob plentyn wrth wraidd y dysgu.
Meithrin parch ac angerdd tuag at yr iaith Gymraeg ac ymfalchïo yn niwylliant, hanes a threftadaeth Cymru.
Dathlu amrywiaeth ddiwylliannol a hyrwyddo cydraddoldeb.
Darparu'r sgiliau, y gwerthoedd a'r profiadau sydd eu hangen ar ein pobl ifanc i ffynnu mewn byd sy'n newid yn barhaus.
Ysbrydoli pawb i fod y gorau y gallant fod, gan ddatblygu annibyniaeth, dyfalbarhad a gwydnwch.
Darparu cyfleoedd addysgeg cyfoethog a heriol, yn ogystal â phrofiadau dysgu cyffrous.
Gwrando ar lais holl gymuned yr ysgol.
Hyrwyddo ieithwedd gadarnhaol wrth gyfathrebu.
Datblygu partneriaethau cryf rhwng holl randdeiliaid yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Yn gryno, ein gweledigaeth yw creu amgylchedd cynhwysol, diogel, hapus a gofalgar, sy'n seiliedig ar barch, parodrwydd a pherthyn, lle gall disgyblion a staff ffynnu a chyflawni eu llawn botensial.

Crynodeb

Rwyf yn eithriadol o falch o'r hyn yr ydym wedi llwyddo i'w gyflawni eleni er yr holl heriau a wynebwyd, ac rwyf yn benderfynol o sicrhau fod yr ysgol yn parhau i ffynnu, datblygu a gwella dros y blynyddoedd nesaf. Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus ac am sefydlu partneriaeth mor gref â'r ysgol.

John Hayes,
Pennaeth

Aelodaeth o'r Corff Llywodraethol 2020-21:

Cymuned	Awdurdod Lleol	Rheini	Staff
Ms Rebecca Leach	Mr John Hayes Pennaeth	Ms Lynette Thomas	Mrs Catrin Pallot Dirprwy Bennaeth
Dr Catrin Redknap	Mrs Mair Parry-Jones	Mrs Lowri Griffiths	Mr Aled James
Mr John Griffiths	Mrs Caroline Cooksley	Mrs Kate Oprava	Mr Dion Davies
Mrs Sara Williams	Ms Ruth Parry	Mrs Nia Land	Miss Stephanie Johns
Dr Kathryn Walters	Dr Arun Midha	Ms Lisa Tiplady	**Cynrychiolwyr disgyblion**
	Dr Huw Onllwyn Jones	Ms Bernadette Coppinger	Daniel Howes Greta Evans

Mr Eryl Samuel fu Ymgynghorydd Her yr ysgol ar ran Consortiwm Canolbarth y De yn ystod 2020-21. Diolchwn iddo am ei gefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio yn ein hymdrechion i barhau i godi safonau'r ysgol.

Y Clerc i'r Llywodraethwyr yw **Eve Smith** sy'n gweithio yn Neuadd y Sir. Os ydych chi am gysylltu â hi, gallwch wneud hynny ar 029 2087 2915.

Gellir cysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr drwy swyddfa'r ysgol.

HYFFORDDIANT MEWN SWYDD I ATHRAWON (HMS)

Mae'r cyllid a bennir yn flynyddol ar gyfer HMS wedi ei neilltuo ar gyfer cynorthwyo athrawon yn y ddarpariaeth o flaenoriaethau cenedlaethol, sef llythrennedd, rhifedd, cymhwyso digidol, cynnig cefnogaeth i ddisgyblion a all fod dan anfantais oherwydd tlodi ac amddifadedd a datblygu'r cwricwlwm newydd.
Roedd y datblygiadau hyn yn cynnwys rhannu un o'n diwrnodau HMS gyda staff o'r ysgolion cynradd er mwyn cydweithio ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd; rhannwyd ail ddiwrnod HMS gyda phob ysgol uwchradd Gymraeg arall yn ne Cymru gan rannu arfer da ymysg ein gilydd.
Clustnodwyd trydydd diwrnod i'r diben o baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth ADY newydd.
Roedd y tri diwrnod HMS oedd yn weddill yn rhoi sylw i wahanol agweddau o gynllun gwella'r ysgol.
Mae'r ysgol yn parhau i gefnogi datblygiad proffesiynol Athrawon sydd Newydd Gymhwyso ac athrawon dan hyfforddiant.

GWEITHREDU'R POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau i gael proffil uchel o fewn yr ysgol. Caiff y bloc cefnogaeth dysgu (Bloc M) ei ddefnyddio'n effeithiol fel adnodd, ac mae'r tîm yn parhau i wneud gwaith ardderchog mewn cynnig cefnogaeth i ddisgyblion sydd ag ystod eang o anghenion. Mae ymwybyddiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys Disgyblion Mwy Abl a Dawnus, yn uchel ymhlith y staff, ac mae'r ysgol wedi cael llwyddiant â'r mentrau a gyflwynwyd. Mae cysylltiadau ardderchog â rhieni ac asiantaethau allanol; ffocws cryf ar gysylltiadau rhwng blwyddyn 6 a 7 sy'n cynnwys Fforwm Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol; cydweithrediad effeithiol ag adrannau ac ymateb prydlon ac uniongyrchol i ganran uchel o ddisgyblion sydd ag **anawsterau darllen a sillafu** yn y naill iaith a'r llall a sgiliau wedi eu gohirio mewn rhifedd.

Mae'r Bloc Cefnogaeth Dysgu, dan arweinyddiaeth Mr Trystan Williams (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol) yn hafan i ddisgyblion sydd angen lefel dwys o gefnogaeth â'u hanghenion dysgu, a all amrywio o anghenion dysgu cyffredinol, anghenion dysgu penodol, ac anghenion emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol, i anghenion meddygol, corfforol neu'n ymwneud â'r synhwyrau. Mae hefyd yn darparu lleoliad priodol ar gyfer ein Cynllun Darllen gydag oedolion sy'n gwirfoddoli. Datblygiad pwysig a gwerthfawr dros y flwyddyn ddiwethaf yw'r ganolfan lesiant dan arweinyddiaeth Mr Hefin Dumbrill, sy'n cynnig cefnogaeth llesiant emosiynol i rai o'n disgyblion mwyaf bregus ac anghenus.

Mae'r staff i gyd yn gweithredu'r polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r un ar gyfer Disgyblion Mwy Abl a Dawnus. Mae'r cynlluniau addysg unigol, a lle bo angen hynny, y cynlluniau ymddygiad unigol, yn ddogfennau byw a gaiff eu monitro'n rheolaidd. Mae athrawon ym mhob adran yn derbyn pob gwybodaeth angenrheidiol ynghylch unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y disgyblion, ac maent yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth wrth fynd ati i gynllunio gwaith y disgyblion.

Gwneir defnydd effeithiol o bob adnoddau sydd ar gael: staff arbenigol a phwnc, athrawon cefnogaeth, cynorthwy-wyr cefnogaeth dysgu, asiantaethau a phartneriaethau allanol, cynlluniau darllen, cynlluniau sillafu cartref ac ysgol a chyfraniad rhieni a chyfeillion er budd y disgyblion. O ganlyniad i hyn oll, gwelir bod disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Blaenoriaeth y flwyddyn sydd i ddod yn yr Adran ADY yw sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei dyletswyddau yn wyneb y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.

Un o ddatblygiadau mwyaf cyffrous eleni yw Gruff, y ci therapi. Mae Gruff yn cael ei hyfforddi gan Mr Trystan Williams (CADY) i fod yn gi therpai fydd yn gweithio gyda'r disgyblion hynny fyddai'n elwa o dreulio amser yn ei gwmni. Edrychwn ymlaen at weld y project creadigol yma'n datblygu ymhellach dros y flwyddyn i ddod.

Prif themau Cynllun Gwella'r Ysgol, 2021-22:

Cynllun adfer ôl COVID:

- Gwasanaeth cwnsela ac iechyd meddwl estynedig.
- Ymyriadau cau'r bwlch a gwrando ar lais y dysgwr.
- Cynllun Twf Meddwl / 'Trauma Informed Schools'.
- Ffocws ar y Gymraeg - cynllun ysgol gyfan.
- Ffocws ar reolau cyffredinol yr ysgol.

Strategaeth ysgol gyfan: Parch / Parodrwydd / Perthyn:

- Cysylltiadau gyda'r cwricwlwm newydd ar gyfer Blwyddyn 7.
- Cydweithio gyda'r ysgolion cynradd.
- Cyfle i adolygu ac ail-lansio rheolau'r ysgol.
- Cyfle i atgyfnerthu'r Gymraeg.

Deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd:

- Hyfforddiant staff a rhannu gwybodaeth am y ddeddfwriaeth newydd.
- Sefydlu systemau newydd.
- Ymestyn ein darpariaeth lles ar gyfer disgyblion Anghenion Ymddygiadol Emosiynol.
- Mireinio'r gofrestr ADY a pharatoi ar gyfer disgyblion newydd sydd â datganiad.

Dysgu ac addysgu a datblygiad proffesiynol staff:

- Ymwreiddio safonau proffesiynol ac arweinwyr newydd.
- Cyfleoedd datblygiad proffesiynol penodol i staff; unigolion, arweinwyr, timau.
- Datblygu systemau hunan-wella yr ysgol.
- Diwygio systemau asesu ac adrodd yr ysgol.

Cwricwlwm newydd a sgiliau:

- Treialu cwricwlwm newydd gyda Blwyddyn 7 ym mis Medi.
- Cyd-gynllunio gyda'r ysgolion cynradd.
- Darpariaeth iechyd a llesiant ysgol gyfan.
- Ymwreiddio sgiliau i mewn i'r cwricwlwm newydd.
- Sicrhau cwricwlwm addas i CA4 a CA5.

Cyllid, adnoddau a staffio:

- Sicrhau cyllid sy'n cydbwyso ar gyfer 2021-22.
- Rhyddhau aelodau Tîm Arwain o'u cyfrifoldebau Arweinwyr Canol.
- Cryfhau'r Tîm gweinyddol.
- Sicrhau staff addas ar gyfer 2021-22.
- Gweithio gyda swyddogion yr A.Ll i ddatblygu'r safle ymhellach.

Atodiad A: Ffigurau ariannol terfynol ar gyfer 2020-21.
Atodiad B: Dyddiadau'r flwyddyn academaidd ar gyfer 2021-22.
Atodiad C: Hawl rhieni i alw am gyfarfod.

Atodiad A:

CARDIFF COUNCIL/GYNGOR CAERDYDD				
SCHOOLS OUTTURN OF EXPENDITURE/CANLYNIAD GWARIANT YSGOLION 2020-2021				
Governing Body/Corff Llywodraethu of:		Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr		
	Governor Approved Budget/Cyllideb a Gymeradwywyd gan y Llywodraethwyr		Actual Expenditure/ Gwariant Cyflawnedig	
	£	£	£	£
Staffing costs/Costau Staff				
Teaching Costs/Costau Addysgu	3,969,004		4,013,380	
Special Needs Teachers/Athrawon Anghenion Arbennig	131,899		132,959	
Teachers for statemented pupils/Athrawon ar gyfer disgyblion sy'n destun datganiad	0		0	
Short Term Supply/Llanw Byr Dymor	45,000		30,324	
Long Term Supply/Llanw Hir Dymor	68,296		50,207	
Special Needs Support Staff/Staff Cymorth Anghenion Arbennig	295,114		296,091	
Nursery Assts/ Teachers Aides / Adult Helpers/Cynorthwywyr Meithrinfa/ Cymhorthion Athrawon / Cynorthwywyr	181,498		168,801	
Foreign Language Assistants/Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor	15,587		3,757	
Technicians/Technegwyr	79,343		79,515	
Mid Day Supervisors/Gorychwylwyr Canol Dydd	0		0	
Library Staff / Attend Officer/Staff Llyfrgell / Swyddog Presenoldeb	0		0	
Administrative Staff/Staff Gweinyddol	204,966		210,144	
Non teaching supply costs/Costau llanw staff heb fod yn athrawon	0		0	
Training Costs/Costau hyfforddi	82,240		65,820	
Other Staff Costs/Costau staff eraill	32,993		50,866	
Performance Management/Rheoli Perfformiad	0		0	
Total Staffing Costs/Cyfanswm Costau Staff		5,105,940		5,101,864
Premises Related Costs/Costau Eiddo				
Caretaking Staff/Staff Gofalwyr	101,163		89,790	
Domestic Staff/Staff Domestig	0		15,583	
Grounds Staff/Staff y Tir	6,600		6,639	
Cleaning Costs/Costau Glanhau	191,296		198,014	
Energy Costs/Costau Ynni	82,686		76,554	
Rates/Cyfraddau	137,763		137,763	
Repairs and Maintenance/Atgyweiriau a Chynhaliaeth	43,688		47,447	
Water/Dŵr	13,477		7,647	
Total Premises Related Costs/Cyfanswm Costau Eiddo		576,673		579,435
Transport Costs/Costau Cludiant				
Pupil Transport Costs/Costau Cludiant Disgyblion	20,250		11,314	
Staff Transport Costs/Costau Cludiant Staff	300		128	
Vehichle Costs/Costau Cerbydau	12,700		4,720	
Total Transport Costs/Cyfanswm Costau Cludiant		33,250		16,162
Supplies and Services/Cyflenwadau a Gwasanaethau				
Teaching Materials/Adnoddau Addysgu	103,000		82,751	
Equipment, Furniture, Materials & music tuition/Offer, Dodrefn, Deunyddiau a hyfforddiant cerddoriaeth	6,500		4,361	
Library Books & Materials/Llyfrau a Deunyddiau Llyfrgell	0		0	
Catering Costs/Costau Arlwyo	0		38	
Unallocated / Savings to be found/Arian heb ei ddosbarthu / Cynilion	-60,273		0	
Communications Equipment and Services/Offer a Gwasanaethau Cyfathrebu	45,200		165,464	
Consultants Fees/Ffioedd Ymgynghorwyr	0		0	
Examinations Fees/Ffioedd Arholiadau	115,000		98,717	
Games & School Activities/Gemau a Gweithgareddau Ysgol	12,500		2,528	
Clerk to Governing Body/Clerc y Corff Llywodraethu	1,000		970	
Other office costs/Costau swyddfa eraill	800		0	
Printing & Stationery/Argraffu a Deunydd Ysgrifennu	0		-3,786	
Pupil Exclusions/Gwaharddiadau Disgyblion	0		0	
Subsistence and expenses/Cynhaliaeth a threuliau	6,000		715	
Total Supplies and Services/Cyfanswm Cyflenwadau a Gwasanaethau		229,727		351,757
Central Services/Gwasanaethau Canolog				
School Meals/Prydau Ysgol	37,500		37,520	
Service Level Agreements/Trefniadau Lefel Gwasanaeth	59,663		66,918	
Total for Central Services/Cyfanswm ar gyfer Gwasanaethau Canolog		97,163		104,438

Income/Incwm						
Additional Central Funding/Nawdd Canolog Ychwanegol		-312,398			-201,380	
Community Education/Addysg Cymunedol		0			0	
Donations/Rhoddion		-55,000			-23,172	
Lettings/Gosodiadau		-40,000			-10,421	
Other Income/Incwm arall		-14,583			-53,428	
Grant Income/Incwm rhent		0			-562,425	
Sales/Gwerthiannau		0			0	
School Meals Recharge/Talu am Brydau Ysgol		0			0	
Training and Tuition Income/Incwm Hyfforddiant		-24,400			-17,309	
Total Income/Cyfanswm Incwm			-446,381			-868,136
Interest and Other/Llog ac Arall						
Interest on investments/Llog ar fuddsoddiadau		0			0	
School Investments/Buddsoddiadau Ysgol		0			0	
Withdrawl Investments/Buddsoddiadau Dileadau		0			0	
School Deficit/Gwariant Ysgol						
Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro		0			0	
Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro		0			0	
Interest/Llog		-3,000			-1,214	
			-3,000			-1,214
Total Interest and Other/Cyfanswm Llog ac arall						
Total Net Expenditure/Cyfanswm Gwariant Net			5,593,371			5,284,307
Less Uninvested Balance Brought Forward/Llai'r Balans na fuddsoddwyd a ddygwyd ymlaen			99			
Less earmarked Rates/Llai'r Cyfraddau a glustnodwyd			-137,762.50			-137,762.50
Contribution to / from balances/Cyfraniad i / o falansys						309,163
Revised Net Expenditure/Gwariant Net Diwygiedig			**5,455,708**			**5,455,708**
Summary/Crynodeb						
Total resources available in 2020-2021 / Cyfanswm adnoddau ar gael yn 2020-2021		£				
School balances Brought forward from 2019-2020/Balansau ysgol a ddygwyd ymlaen o 2019-2020		-98.85				
School Loans Brought forward from 2019-2020/Benthyciadau Ysgol a Ddygwyd ymlaen o 2019-2020		0.00				
Prior Year Adjustment/Cyn Addasiad Blwyddyn		0.00				
Total delegated resources/Cyfanswm adnoddau dirprwyedig		5,593,470				
Total/Cyfanswm		**5,593,371.15**				
Actual Expenditure/Gwariant Cyflawnedig		5,284,307.03				
Less change in investments/Llai'r newid mewn buddsoddiadau		0.00				
Less Movements in Temporary Loan/Llai'r Symudiadau â Benthyciadau Dros Dro		0.00				
Less variance in earmarked rates/Llai'r amrywiant â chyfraddau a glustnodir		0.00				
Total balance carried forward to 2021-2022/Cyfanswm Balans a ddygwyd ymlaen i 2021-2022		**309,064.12**				
Statement of Balances Held/Datganiad Balansau		£				
Uninvested Balance as at 31st March 2021/Balans na fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2021		309,064.12				
Invested Balance as at 31st March 2021/Balans a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2021		0.00				
Outstanding Loans as at 31st March 2021/Benthyciadau dros ben ar 31 Mawrth 2021		0.00				
Total Balances held as at 31st March 2021/Cyfanswm Balansau ar 31 Mawrth 2021		**309,064.12**				
		Matthew W. Jones				
for Corporate Director Resources						
Prif Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau						

Atodiad B: Dyddiadau'r flwyddyn academaidd ar gyfer 2021-22.

Tymor yr hydref:

Cychwyn: 03.09.21

Hanner tymor: 25.10.21 – 29.10.21

Gorffen: 17.12.21

Tymor y gwanwyn:

Cychwyn: 04.01.22

Hanner tymor: 21.02.22 – 25.02.22

Gorffen: 08.04.22

Tymor yr haf:

Cychwyn: 25.04.22

Gŵyl y Banc: 02.05.22

Hanner tymor: 30.05.22 – 03.06.22

Gorffen: 22.07.22

Atodiad C: Eich hawl i ofyn am gyfarfod â chorff llywodraethu'r ysgol

Annwyl Riant

Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ran y corff llywodraethu i roi gwybod i chi am newidiadau i'r rheoliadau a threfniadau newydd o ran cynnal cyfarfod â chorff llywodraethu'r ysgol.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn dileu'r gofyniad i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol â rhieni, a chyflwynwyd trefniadau newydd yn lle hynny er mwyn galluogi rhieni i ofyn am hyd at 3 chyfarfod â chorff llywodraethu'r ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol ynghylch materion sy'n peri pryder iddynt. Dan y Ddeddf, bydd angen bodloni pedwar amod os yw rhieni yn dymuno arfer eu hawliau i gynnal cyfarfod.

1. Bydd angen i Rieni lunio deiseb o blaid cynnal cyfarfod.

Bydd angen i rieni o leiaf 30 o ddisgyblion a gofrestrwyd yn yr ysgol lofnodi'r ddeiseb. Os deiseb ar bapur ydyw, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig yn ogystal â nodi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os deiseb electronig ydyw, y 'llofnod' sydd ei angen yw enw'r rhiant wedi'i deipio yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'llofnodi' y ddeiseb electronig.

2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol. Ni ellir galw'r cyfarfod i drafod materion megis cynnydd disgyblion unigol, nac i wneud cwyn yn erbyn aelod o staff neu gorff llywodraethu'r ysgol. Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno'r mater/materion i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid nodi'r wybodaeth hon yn glir ar frig y ddeiseb, gyda llofnodion y rhieni yn ymddangos islaw hynny.

3. Gellir cynnal hyd at dri chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae'r gyfraith yn galluogi rhieni i arfer eu hawliau i ofyn am hyd at dri chyfarfod â chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. Rhaid bod o leiaf 25 diwrnod ysgol yn weddill yn y flwyddyn ysgol. Un o amodau'r gyfraith yw bod rhaid bod o leiaf 25 diwrnod ysgol yn weddill yn y flwyddyn ysgol pan gyflwynir y ddeiseb i'r ysgol er mwyn gallu cynnal y cyfarfod. Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol ar agor i ddisgyblion: Nid yw hyn yn cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau HMS.

Y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod â chorff llywodraethu'r ysgol yw:
Cadeirydd y Llywodraethwyr,
d/o Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Heol Pentrebaen, Y Tyllgoed, Caerdydd CF5 3PZ.

Mae rhagor o wybodaeth ar sut y gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod â'r corff llywodraethu ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutoryguidance/?lang=cy

Yn gywir,

Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Plasmawr